

# CYNLLUN BUSNES BLAENORIAETHAU LEFEL 1

2017-2020



## Rheolaeth Fersiwn

Fersiwn Dogfen	Dyddiad	Nodiadau
V0.1	27/02/2017	Fersiwn drafft i'w gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor 08/03/2017

## Blaenoriaeth 1: Safonau

I sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.

- Gwella Deilliannau 5 a 6 y Cyfnod Sylfaen
- Gwella Deilliannau Lefel 4 a 5 Cyfnod Allweddol 2
- Gwella Deilliannau Lefel 5, 6 a 7 yn CA3
- Gwella mesurau CA4; L2+, L2, C9, DPC
- Gwella CA5 (L3 a SPCE)
- Gwella perfformiad a chynnydd pob grŵp o ddysgwyr (PYD, SIY, PMG, B/G, ADY, MAT, Teithwyr) a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad.
- Codi safonau'r Gymraeg yn erbyn y continwmm iaith.
- Gwella safonau Llythrennedd a Rhifedd.
- Gwella safonau TGCh a Chymhwysedd Digidol.

## Blaenoriaeth 2: Cwricwlwm ac asesu

I sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.

- Codi ymwybyddiaeth o'r pedwar diben o fewn Dyfodol Llwyddiannus a datblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm, a hybu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth.
- Cydweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys disgyblion (e.e. y Cyngor Celfyddydau, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Iechyd ac ati) i feithrin partneriaethau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, fel y diffinnir yn Dyfodol Llwyddiannus.
- Sicrhau bod cynllunio o safon uchel ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a sgiliau (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh, cydweithio a datrys problemau) ym mhob cyfnod allweddol.
- Gofalu bod pob ysgol uwchradd yn gwbl barod i gyflwyno cymwysterau a manylebau CA4.
- Gofalu bod trefn gadarn ar gyfer gosod targedau a chyfundrefnau tracio ac ymyrraeth effeithiol ym mhob ysgol uwchradd (gyda'r holl randdeiliaid yn cydweithredu e.e. ADY, SIY ac ati).
- Sicrhau asesiadau athro cyson, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Sicrhau bod y dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei chyflwyno'n effeithiol fel rhan o'r Fagloriaeth yn CA4 ac ôl-16 ar draws y rhanbarth.

### Blaenoriaeth 3: Arweinyddiaeth

I sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

- Sicrhau bod cynllunio strategol ac arfarnu effeithiol, gan gynnwys gweithdrefnau a phrosesau, yn gadarn ac yn weithredol ym mhob sefydliad dysgu (gan gynnwys cynllunio adrannol a phynciol).
- Sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol a bod tystiolaeth o hynny mewn dogfennau perthnasol (e.e. polisi, cyllid, personél, diogelu). Sicrhau bod y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol a'r llwybr datblygu gyrfu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi a hybu datblygiad proffesiynol parhaus ar bob lefel (yn unol â phrif flaenoriaethau'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol).
- Datblygu arweinyddiaeth ddosranedig drwy uwch sgilio a grymuso pob aelod o staff (cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth).
- Sicrhau bod staff safonol yn cael eu penodi a'u cadw o fewn y system.

### Blaenoriaeth 4: Lles

Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

- Sicrhau darpariaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol, ble'n briodol, i ddysgwyr bregus.
- Sicrhau bod lles yn cael ei gynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm nawr, ac yn y dyfodol.
- Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol.
- Sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gyfreithiol a'r polisiau a'r gweithdrefnau diogelu statudol.

### Blaenoriaeth 5: Addysgu

I sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddbynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.

- Datblygu addysgeg ac arferion myfyriol effeithiol ym mhob cyfnod allweddol, i bob dysgwr.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau a sgiliau trawsgwricwlaidd; llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r dimensiwn Cymreig yn cael eu cyflwyno'n effeithiol ar draws pob cyfnod allweddol.
- Sicrhau bod ymyrraeth a chefnogaeth briodol i baratoi tuag at arholiadau allanol.

- Parhau i ddatblygu cydweithio ysgol i ysgol er mwyn rhannu'r arferion gorau a rhoi cyfleoedd i ddatblygu.
- Sicrhau bod y gweithlu addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

## Blaenoriaeth 6: Busnes

I sicrhau bod gan GwE lywodraethu cadarn a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

- Sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gadarn.
- Sicrhau bod llywodraethu effeithiol.
- Sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol – crynodol a ffurfiol i dargedu a dangos cynnydd.
- Sicrhau bod unrhyw arfarnu yn seiliedig ar ymchwil weithredu gadarn.
- Sicrhau bod cyfathrebu clir a chyson rhwng rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau'r ALI a GwE wedi'u diffinio'n glir.

## Blaenoriaeth 7: Argymhellion Estyn

I sicrhau bod cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud yn erbyn pob argymhelliad o fewn yr amserlen ddisgwyliedig

- Gofalu bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, trefn gosod targedau a thracio yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad pob dysgwr ar draws yr ysgolion a'r awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Gwella manylder y trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- Gofalu bod cynlluniau busnes a gweithredu yn cynnwys meini prawf llwyddiant eglur, a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol.
- Crisialu rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-Bwyllgor.
- Datblygu fframwaith priodol i asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig i gyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod y ffrydiau gwaith wedi'u costio'n llawn.